# Ysgol Cymerau

Ffordd Mela, Pwllheli,
Gwynedd, LL53 5AR

Edward Rhys Williams
Pennaeth / Headteacher

01758 612001
RhysWilliams2@gwynedd.gov.uk


**NEWIDIADAU POSIB I YSGOLION GWYNEDD**
**POTENTIAL CHANGES FOR GWYNEDD SCHOOLS**

Gweler isod wybodaeth oedd yn eich papur newydd Cyngor Gwynedd diweddaraf. Mae cyfle i rieni fynychu cyfarfodydd i gael gwybod am y newidiadau ac i leisio barn (gweler ddyddiadau'r cyfarfodydd isod).

*See below information in your latest Gwynedd Council newspaper. Parents are invited to attend meetings to learn more about the changes and to voice their opinions (see the dates for the meetings below)*

DIOLCH / *THANK YOU*

E. Rhys Williams

## SICRHAU'R ADDYSG ORAU I DDISGYBLION GWYNEDD







**Nod Cyngor Gwynedd ydi sicrhau bod holl ysgolion y sir yn arfogi plant a phobl ifanc i gyflawni'r safonau uchaf posib ac i adnabod ffyrdd creadigol o warchod addysg mewn cymunedau gwledig.**

Ar hyn o bryd, mae ansawdd addysg ysgolion Gwynedd yn dda iawn, ond mae penaethiaid ysgolion ac arbenigwyr addysg annibynnol wedi adnabod yr angen i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio i sicrhau bod y llwyddiant presennol yn parhau. Maent wedi datgan yn glir fod risg sylweddol i safonau addysg yn ysgolion Gwynedd dros y blynyddoedd nesaf os nad oes rhai newidiadau yn cael eu gwneud i'r model presennol.

Os am gwrdd â'r nod o ddarparu addysg arddercheg i holl blant Gwynedd, mae penaethiaid wedi dweud bod rhaid cyfarch heriau penodol, sy'n cynnwys y ffaith:

- nad oes amser digonol i benaethiaid fod yn arwain a llywio addysg yn eu hysgolion, datblygu a hyrwyddo ymarfer da, a rheoli staff a chyllidebau yn effeithiol;
- fod problemau cynyddol wrth recriwtio penaethiaid ysgolion o'r newydd;
- fod athrawon cynradd yn aml yn gorfod addysgu ystod eang o ddisgyblion o wahanol oedrannau a galluoedd yn yr un dosbarth - ar adegau hyd at bedair blwyddyn ysgol mewn un dosbarth;
- fod athrawon uwchradd yn aml yn gorfod addysgu sawl pwnc y tu allan i'w maes arbenigedd.

Dywedodd Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd

"Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi trafod a gwrando yn ofalus ar benaethiaid ysgolion Gwynedd.

"Mae'r trafodaethau yma wedi bod yn hynod gynhyrchiol ac yn sail ar gyfer llunio egwyddorion newydd cychwynnol i amddiffyn safonau addysg ac i symud tua'r nod o sicrhau bod pob plentyn yn y sir yn derbyn addysg ardderchog a fydd yn eu galluogi i fyw a ffynnu'n lleol.

"Mae'r trafodaethau cychwynnol yma wedi cadarnhau a chrisialu'r ffaith fod yr her ym maes arweinyddiaeth ysgolion yn dwyshau yn flynyddol. Mae hyn yn amlwg yn rhywbeth na allwn ei anwybyddu os ydym o ddifrif am ddiogelu ansawdd addysg yn y sir, gan gynnwys addysg wledig."

Meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd:

"Mae staff ysgolion Gwynedd wedi llwyr ymrwymo i ddarparu'r addysg orau bosib i'n plant. Ond rydym angen trafod a chytuno ar egwyddorion newydd er mwyn osgoi dirywiad dros y blynyddoedd i ddod.

"Fel cam cychwynnol, rydym wedi dechrau ar y gwaith hanfodol yma drwy wahodd penaethiaid ysgolion y sir i ddiffinio'r heriau maent yn eu hwynebu ac rydan ni'n hynod ddiolchgar iddynt am fod yn barod i gyfrannu'n llawn i'r gwaith. Mae'r hyn maent wedi ei adnabod yn cydfynd gyda barn Estyn, yr arolygiaeth ysgolion, sef fod arweinyddiaeth dda yn allweddol er mwyn sicrhau addysg o'r ansawdd uchaf i'n plant.

"Dros yr wythnosau nesaf, byddwn yn ymweld â chymunedau ym mhob rhan o Wynedd - ac rydym yn awyddus i ddatblygu egwyddorion ar y cyd gyda'r proffesiwn, llywodraethwyr a rhieni fel y gallwn symud ymlaen gyda'n gilydd."

### Cyfle i ddysgu mwy a chyfrannu

**Bydd cyfres o sesiynau galw-heibio yn cael eu cynnal ar draws Gwynedd dros yr wythnosau nesaf ar gyfer llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned yn ehangach er mwyn bod yn rhan o'r broses o ddatblygu egwyddorion newydd ar gyfer ysgolion Gwynedd:**

| | | |
|---|---|---|
| 07/11/2016 | 3pm - 6pm | Canolfan Hamdden Plas Ffrancon, Bethesda |
| 09/11/2016 | 3pm - 6pm | Capel Berea Newydd, Bangor |
| 14/11/2016 | 4pm - 7pm | Ysgol Brynrefail, Llanrug |
| 16/11/2016 | 3pm - 6pm | Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes |
| 18/11/2016 | 3pm - 6pm | Canolfan Hamdden Arfon, Caernarfon |
| 21/11/2016 | 3pm - 6pm | Canolfan Hamdden Penllyn, Y Bala |
| 23/11/2016 | 3pm - 6pm | Canolfan Hamdden Bro Ffestiniog, Blaenau Ffestiniog |
| 28/11/2016 | 3pm - 6pm | Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog |
| 30/11/2016 | 3pm - 6pm | Ysgol Ardudwy, Harlech |
| 05/12/2016 | 3pm - 6pm | Canolfan Hamdden Glan Wnion, Dolgellau |
| 06/12/2016 | 3pm - 6pm | Ysgol Glan y Môr, Pwllheli |
| 07/12/2016 | 3pm - 6pm | Canolfan Hamdden Bro Dysynni, Tywyn |
| 14/12/2016 | 3pm - 6pm | Canolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog |

**Bydd cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn parhau hyd dymor gwanwyn 2017 ac yn bwydo maes o law i mewn i weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd.**

## ENSURING THE BEST FOR GWYNEDD PUPILS







**Gwynedd Council's objective is that all the county's schools equip children and young people to achieve the highest possible standards. The Council is also committed to finding creative ways of safeguarding education in rural communities.**

Whilst the quality of education in Gwynedd schools is currently very good, headteachers and independent educational specialists have identified the need to develop new and innovative ways of working to ensure that this success continues. They have clearly stated that there is a significant risk to educational standards in Gwynedd schools over the coming years unless some changes are made to the current model.

If the objective of providing excellent education to all Gwynedd children is to be achieved, headteachers have said that certain challenges must be addressed. These include:

- a lack of adequate time for headteachers to lead and to steer education in their schools, to develop and to promote good practice, and to effectively manage staff and budgets;
- increasing problems in recruiting headteachers;
- primary schoolteachers often having to teach a wide range of pupils of different ages and abilities in the same class - up to four school years in one class at some times;
- secondary schoolteachers often having to teach several subjects outside their area of expertise.

Arwyn Thomas, Gwynedd Council's Head of Education, said:

"Over the past year, we have held discussions with Gwynedd headteachers and have listened carefully to them.

"These discussions have been extremely productive and have provided a basis for setting out new initial principles to protect educational standards and for moving towards the goal of ensuring that all children in the county receive an excellent education that will enable them to live and to thrive locally.

"These initial discussions have confirmed and highlighted the fact that we are facing a challenge in school leadership and that it is increasing on an annual basis.

"Clearly, this is something that we cannot ignore if we are serious about safeguarding the quality of education in the county, including education in rural areas."

Councillor Gareth Thomas, Gwynedd Council's Cabinet Member for Education, noted:

"Gwynedd's school staff are fully committed to providing the best possible education for our children. However, we need to discuss and to agree on new principles in order to avoid a decline over the coming years.

"As an initial step, we have started on this essential work by inviting the county's school headteachers to define the challenges facing them and we are extremely grateful to them for their willingness to contribute fully to the work. What they have identified is in line with the school inspectorate Estyn's opinion that good leadership is vital in achieving education of the highest quality for our children.

"Over the next few weeks, we will be visiting communities in all parts of Gwynedd - and we are eager to be develop principles in collaboration with the profession, governors and parents so we can move forward together."

### An opportunity to learn more and have your say

**A series of drop-in meetings will be held across Gwynedd during the next few weeks for school governors, parents and the wider community to be a part of the process of developing new educational principles for Gwynedd's schools:**

| | | |
|---|---|---|
| 07/11/2016 | 3pm - 6pm | Plas Ffrancon Leisure Centre, Bethesda |
| 09/11/2016 | 3pm - 6pm | Capel Berea Newydd, Bangor |
| 14/11/2016 | 4pm - 7pm | Ysgol Brynrefail, Llanrug |
| 16/11/2016 | 3pm - 6pm | Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes |
| 18/11/2016 | 3pm - 6pm | Arfon Leisure Centre, Caernarfon |
| 21/11/2016 | 3pm - 6pm | Penllyn Leisure Centre, Y Bala |
| 23/11/2016 | 3pm - 6pm | Bro Ffestiniog Leisure Centre, Blaenau Ffestiniog |
| 28/11/2016 | 3pm - 6pm | Glaslyn Leisure Centre, Porthmadog |
| 30/11/2016 | 3pm - 6pm | Ysgol Ardudwy, Harlech |
| 05/12/2016 | 3pm - 6pm | Glan Wnion Leisure Centre, Dolgellau |
| 06/12/2016 | 3pm - 6pm | Ysgol Glan y Môr, Pwllheli |
| 07/12/2016 | 3pm - 6pm | Bro Dysynni Leisure Centre, Tywyn |
| 14/12/2016 | 3pm - 6pm | Canolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog |

**The public consultation period will continue until the spring term of 2017 and will then help form the basis of the new vision for the education system in Gwynedd.**